Y Comisiwn Etholiadol

# Canllawiau ar gyfer Etholiadau



# Y Comisiwn Etholiadol

**Mae'r canllawiau hyn i etholiadau yn cynnwys gwybodaeth am:**

- Cofrestru i bleidleisio, gan gynnwys sut i gofrestru heb gyfeiriad sefydlog
- Y gofyniad ID pleidleisiwr
  - Pa etholiadau sy'n gofyn am ID ffotograffig?
  - Mathau o ID ffotograffig a dderbynnir
  - Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr
  - Cael Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr dros dro
- Beth i'w ddisgwyl mewn gorsaf bleidleisio
  - Cymorth sydd ar gael yn yr orsaf bleidleisio
- Ffyrdd eraill o bleidleisio: pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Mae'r wybodaeth yn y canllawiau hyn yn ymwneud â'r gofyniad i ddangos ID ffotograffig wrth bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio (y 'gofyniad ID pleidleisiwr') mewn rhai etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae darparu ID ffotograffig yn ofyniad hirsefydlog i bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gennym hefyd adnoddau ar gael i bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw, neu sy'n gymwys i wneud hynny yn **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**




12

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn etholiad penodol yw **12 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Os ydych am bleidleisio yn y DU, rhaid i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio yn gyntaf. Os ydych wedi cofrestru o'r blaen, dim ond os ydych wedi symud tŷ neu wedi newid eich enw y bydd angen i chi gofrestru eto. Nid yw cyflwyno'r gofyniad ID pleidleisiwr wedi newid yr angen i gofrestru i bleidleisio a sut rydych yn cofrestru.

Os oes gennych gyfeiriad parhaol, gallwch gofrestru ar-lein nawr yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**, neu lawrlwytho ffurflen gais bapur yn **gov.uk/government/collections/register-to-vote-paper-forms**

Mae'r tabl hwn yn dangos pwy all gofrestru i bleidleisio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban:

| Rwy'n... | Rwy'n byw yn Lloegr | Rwy'n byw yn yr Alban | Rwy'n byw yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig neu ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n byw yn y DU** | **YDW** (yn 16 oed) | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |
| **Dinesydd yr UE sy'n byw yn y DU** | **YDW** (yn 16 oed) | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |
| **Dinesydd tramor cymwys** (rhywun sy'n byw yng Nghymru neu'r Alban gyda chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, neu i aros yno, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno) | **NAC YDW** | **YDW** (yn 14 oed) | **YDW** (yn 14 oed) |

Er y gallwch gofrestru i bleidleisio yn 14 oed yng Nghymru a'r Alban, ni allwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol hyd nes eich bod yn 18 oed: etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (a gynhelir yng Nghymru a Lloegr yn unig). Gallwch gofrestru i bleidleisio pan fyddwch yn 16 oed yn Lloegr.

Ceir rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn Atodiad 1.

Gallwch wirio a ydych yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau yn eich ardal drwy roi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau** neu drwy ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**

## Cofrestru i bleidleisio os ydych yn profi digartrefedd

### Cofrestru mewn llety dros dro

Os ydych yn byw mewn llety dros dro, fel hostel, gallwch gofrestru yn y cyfeiriad hwnnw ar yr amod nad oes gennych gyfeiriad parhaol yn unman arall. Os nad ydych yn siŵr a yw hyn yn wir, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol.

### Cofrestru heb gyfeiriad sefydlog

Os nad oes gennych gyfeiriad sefydlog neu os ydych yn profi digartrefedd, gallwch gofrestru i bleidleisio o hyd. I gofrestru, mae angen i chi lenwi ffurflen o'r enw 'Ffurflen cofrestru etholiadol ar gyfer rhywun heb gyfeiriad sefydlog na pharhaol'.

Gellir gofyn am gopi papur hefyd gan eich cyngor lleol. Mae'r ffurflen yn gofyn am y cyfeiriad lle hoffech chi gael eich cofrestru. Gall hyn fod yn unrhyw le yn ardal y cyngor lleol lle rydych chi'n treulio llawer o'ch amser, er enghraifft, lloches galw heibio, siop neu fainc mewn parc. Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn am gyfeiriad lle gellir anfon gohebiaeth, gan gynnwys y cerdyn pleidleisio. Fel arall, gallwch ddewis casglu hwn o swyddfa eich cyngor lleol, ond, nid oes angen eich cerdyn pleidleisio arnoch i bleidleisio.

Efallai bydd eich gwasanaeth digartrefedd lleol yn gallu eich helpu i gofrestru i bleidleisio.

## Cofrestru i bleidleisio os ydych yn aelod o gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

Os ydych yn aros ar safle am gyfnod sylweddol o amser neu'n byw mewn llety parhaol, gallwch gofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwnnw. Fel arall, dylech gofrestru heb gyfeiriad sefydlog.

### Cofrestru heb gyfeiriad sefydlog na pharhaol

I wneud hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflen o'r enw 'Ffurflen cofrestru etholiadol ar gyfer rhywun heb gyfeiriad sefydlog na pharhaol' a rhoi manylion am ble rydych chi'n treulio'r rhan fwyaf o'ch amser. Gallai hyn fod unrhyw le yn ardal y cyngor lleol.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen cofrestru etholiadol ar gyfer rhywun heb gyfeiriad sefydlog neu barhaol yn **gov.uk/government/collections/register-to-vote-paper-forms** neu gallwch ofyn am gopi gan eich cyngor lleol. I ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyngor lleol, ewch i **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau** neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**

Gallwch gofrestru ar-lein nawr yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.** Os oes angen unrhyw help arnoch, gallwch gysylltu â'ch cyngor lleol. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyngor lleol trwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**




Mae angen i bleidleiswyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ddangos ID ffotograffig wrth bleidleisio'n bersonol mewn rhai etholiadau.

Mae darparu ID ffotograffig yn ofyniad hirsefydlog i bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon, ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y canllawiau hyn.

Rhaid i'r enw ar eich ID ffotograffig fod yr un fath â'r enw a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru i bleidleisio.

## Mae angen ID ffotograffig yn...



**Cymru**

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.



**Lloegr**

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU
- Etholiadau ac is-etholiadau cynghorau lleol
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.




**Yr Alban**

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU.

## Nid oes angen ID ffotograffig yn…

Etholiadau Senedd Cymru nac etholiadau Senedd yr Alban, nac ychwaith etholiadau cynghorau lleol ac is-etholiadau yng Nghymru a'r Alban.




Gallwch ddefnyddio unrhyw un o'r mathau hyn o ID ffotograffig a dderbynnir i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Dim ond un math o ID ffotograffig y mae angen i chi ei ddangos er mwyn pleidleisio, ond rhaid dangos y fersiwn wreiddiol ac nid llungopi.

Os nad ydych yn siŵr a oes gennych fath o ID ffotograffig a dderbynnir ai peidio, gallwch fynd i **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr** neu gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**

**Teithio rhyngwladol**

Pasbort

**Teithio lleol**

Rhai cardiau teithio rhatach

**Gyrru a pharcio**

Trwydded yrru (gan gynnwys trwydded dros dro)

Bathodyn Glas

**Prawf oedran**

Cerdyn adnabod sydd â marc PASS (y Cynllun Safonau Prawf Oedran)

**Dogfennau eraill a gyhoeddir gan y Llywodraeth**

Cerdyn Cyn-filwr Lluoedd Arfog EF

Cerdyn Hawl Cenedlaethol yr Alban

Dogfennau Mewnfudo Biometrig gan gynnwys eVisas

Cerdyn adnabod amddiffyn

Cerdyn adnabod cenedlaethol

Dim ond y mathau penodol o'r ID ffotograffig a restrir uchod a dderbynnir. Am ragor o wybodaeth ar ba fathau o ID a dderbynnir, gan gynnwys rhestr lawn o'r cardiau teithio rhatach a dderbynnir, gweler Atodiad 2.

## Enw ar ID ffotograffig pleidleisiwr

Dylai'r enw ar eich ID ffotograffig fod yr un fath â'r enw a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru i bleidleisio.

## Rhywedd

Nid oes angen i chi ddangos ID ffotograffig sy'n cynnwys dynodwr rhywedd.


## ID ffotograffig sydd wedi dod i ben

Derbynnir ID ffotograffig sydd wedi dod i ben os yw'r llun yn dal i edrych yn ddigon tebyg i chi fel y gall staff yr orsaf bleidleisio eich adnabod.

## Beth i'w wneud os nad oes gennych fath o ID ffotograffig a dderbynnir

Os ydych am bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio ond nad oes gennych fath o ID ffotograffig a dderbynnir, dylech wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.

Os nad ydych yn siŵr a oes gennych fath o ID ffotograffig a dderbynnir ai peidio, gallwch fynd i **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**, neu gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**




6

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr i'w defnyddio mewn etholiad penodol yw **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Os ydych yn dymuno pleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio, dylech wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os nad oes gennych fath o ID ffotograffig a dderbynnir,
- Os ydych yn teimlo'n bryderus am ddefnyddio math presennol o ID ffotograffig sydd â marciwr rhywedd
- Os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi'n dal i edrych fel y llun ar eich ID
- Os nad yw'r enw ar eich ID ffotograffig yr un enw â'r un y gwnaethoch gofrestru ag ef.

Os nad ydych yn dymuno pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, mae yna ffyrdd eraill y gallwch chi bleidleisio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn adran 'Ffyrdd eraill o bleidleisio' y canllawiau hyn.

Mae tair ffordd o wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr – ar-lein, drwy'r post neu'n bersonol.

Mae'n rhaid eich bod wedi'ch cofrestru i bleidleisio cyn i chi wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. Pan fyddwch yn cofrestru i bleidleisio, gofynnir i chi a oes gennych ID ffotograffig neu a ydych am wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. Gofynnir i chi hefyd a ydych am gael cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'ch Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr mewn braille, print bras neu fformat hawdd ei ddarllen.

## Gwneud cais ar-lein

Gellir cwblhau ceisiadau ar-lein yn **gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr**

## Gwneud cais drwy'r post

Gallwch hefyd wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr trwy gwblhau ffurflen bapur a'i hanfon at eich Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'r ffurflen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch.

Gellir lawrlwytho'r ffurflen yn **gov.uk/government/publications/apply-for-a-voter-authority-certificate-by-post-if-youre-living-in-the-uk.cy**

## Gwneud cais yn bersonol

Gallwch hefyd wneud cais yn bersonol yn eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol.

Mewn rhai ardaloedd, lle mae gennych angen penodol oherwydd eich bod yn anabl, efallai y bydd eich cyngor lleol yn gallu derbyn ceisiadau dros y ffôn.

## Y broses gwneud cais

Wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, bydd angen i chi ddarparu eich:

- ☑ **Enw**
- ☑ **Cyfeiriad**
- ☑ **Dyddiad geni**
- ☑ **Rhif Yswiriant Gwladol**

Os nad ydych yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol, gallwch chwilio amdano ar eich slipiau cyflog neu ar lythyrau swyddogol am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch ddod o hyd iddo, gallwch gwblhau eich cais o hyd, ond bydd angen i chi ddarparu mathau eraill o brawf adnabod, a allai gynnwys tystysgrif geni, cyfriflen banc neu fil cyfleustodau. Bydd eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â chi i drefnu hyn.

Gallwch hefyd ofyn i rywun sy'n eich adnabod roi ardystiad i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn cadarnhau pwy ydych os nad oes gennych unrhyw fath arall o brawf adnabod a dderbynnir. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu rhagor o wybodaeth am ofynion ardystiad.

Nid oes angen i chi nodi eich rhywedd wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, ond mae angen i chi wneud cais gan ddefnyddio'r un enw ag a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru i bleidleisio.

## Darparu llun

Bydd angen i chi ddarparu llun hefyd. Mae'r gofynion ar gyfer y llun yn debyg i'r rhai ar gyfer lluniau pasbort ac mae'n rhaid i chi ddangos eich pen a'ch ysgwyddau heb unrhyw beth yn gorchuddio'r pen – oni bai y gwisgir gorchudd pen am resymau crefyddol neu feddygol. Ni cheir gorchuddio'r wyneb am unrhyw reswm.

Os oes angen help arnoch i dynnu'ch llun, efallai y bydd eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol yn gallu gwneud hyn ar eich rhan. Gallant ddarparu ardal yn eu swyddfa i dynnu lluniau o ymgeiswyr. Mae'n bosibl y bydd cymorth ychwanegol ar gael, ond bydd hyn yn amrywio rhwng ardaloedd felly dylech chi gysylltu â'ch cyngor lleol er mwyn canfod pa gymorth y gall ei ddarparu.

Am ragor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y llun, gweler Atodiad 3 neu ewch i **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**

## Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Os oes angen help arnoch i gwblhau eich cais, gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y broses gwneud cais.


Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol drwy roi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y cyngor lleol yn prosesu'r cais ac yn anfon y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr atoch drwy'r post, ynghyd â chyfarwyddiadau yn esbonio sut i'w defnyddio. Mae'r ffurflen gais yn gofyn a hoffai'r ymgeisydd gael y cyfarwyddiadau mewn print bras, braille neu fformat hawdd ei ddarllen. Mae'r Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr yn cynnwys marc cyffyrddadwy wedi'i godi yn y gornel chwith uchaf, er mwyn eich helpu i'w hadnabod. Mae'r marc hwn ar ffurf pedwar dot bach a gaiff eu hailadrodd dair gwaith.

Nid oes dyddiad dod i ben ar Dystysgrifau Awdurdod Pleidleisiwr, ond dylech adnewyddu eich Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ar ôl 10 mlynedd.

Bydd yr holl ddata y bydd pleidleiswyr yn eu darparu wrth wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr yn cael eu storio'n ddiogel gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn unol â rheoliadau diogelu data.




Os ydych wedi gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais (**5pm, 6 diwrnod gwaith cyn dyddiad yr etholiad**), ond nid yw eich cyngor lleol yn credu y bydd yn cyrraedd mewn pryd i'w defnyddio yn yr etholiad, bydd yn darparu Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr dros dro.

Dim ond ar gyfer y diwrnod pleidleisio perthnasol y bydd y Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr dros dro yn ddilys a bydd angen i chi ei chasglu yn bersonol.

Efallai y bydd modd gwneud trefniadau eraill i gasglu'r dystysgrif o leoliad y byddai angen cytuno arno gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.


Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol drwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

Os byddwch yn colli eich Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr parhaol ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, gallwch wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys yw 5pm ar ddiwrnod yr etholiad.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng, ewch i **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau** neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**

6

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr yw **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn etholiad.




Bydd gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm ar ddiwrnod yr etholiad. Tua phythefnos cyn diwrnod yr etholiad, bydd gwybodaeth am leoliad gorsafoedd pleidleisio yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol. Bydd cyfeiriad eich gorsaf bleidleisio hefyd ar eich cerdyn pleidleisio, a byddwch yn ei dderbyn yn y post. Bydd arwyddion y tu allan a'r tu mewn i'r orsaf bleidleisio i ddangos i chi ble i fynd.

Pan fyddwch yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio, bydd aelod o staff yn:

1. Gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad fel y gellir dod o hyd i chi ar y gofrestr etholiadol
2. Gofyn am eich ID ffotograffig, a gwirio a yw'n dderbyniol
3. Rhoi eich papur pleidleisio i chi a'ch cyfarwyddo i'w gwblhau mewn bwth pleidleisio, yn ôl yr arfer.

Mae staff yr orsaf bleidleisio yno i helpu, ac mae'r holl staff yn cael hyfforddiant ar sut i wirio ID ffotograffig mewn ffordd sensitif.

Ni fydd staff yn gwirio'r dynodwr rhywedd, y cyfeiriad na'r cenedligrwydd ar eich ID ffotograffig.

Mae cynghorau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod etholiadau yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod pleidleiswyr yn teimlo'n gyfforddus wrth fwrw eu pleidlais. Fel rhan o'u gwaith cynllunio, byddant wedi ystyried pa drefniadau sydd eu hangen er mwyn helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn lleoedd diogel.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ffordd y caiff eich ID ffotograffig ei wirio, cysylltwch â'ch cyngor lleol er mwyn deall pa drefniadau lleol fydd ar waith i'ch helpu i bleidleisio.

## Preifatrwydd

Bydd ardal breifat ar gael fel y gallwch ddewis i'ch ID ffotograffig gael ei wirio'n breifat os byddwch yn dymuno. Gallai hyn fod mewn ystafell ar wahân, neu mewn ardal â sgrin breifatrwydd.

Gallwch hefyd ofyn am i aelod benywaidd o staff wirio eich ID ffotograffig. Caniateir y cais hwn os bydd yn bosibl.


Os byddwch yn gwisgo gorchudd wyneb fel fêl, dylai fod drych ar gael fel y gallwch ei gosod yn ôl yn syth ar ôl i'ch ID ffotograffig gael ei wirio.

Os byddwch yn gwisgo gorchudd wyneb am resymau meddygol ac y byddai'n well gennych beidio â'i dynnu dan do, mae'n bosibl y gall staff yr orsaf bleidleisio wirio eich ID ffotograffig yn yr awyr agored. Os bydd gennych unrhyw bryderon, gallwch gysylltu â'ch cyngor lleol.

## Dysgwch fwy am beth i'w ddisgwyl

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cyngor lleol drwy roi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**




## Cyfarpar cynorthwyol

Mae gan bob pleidleisiwr yr hawl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. Bydd rhywfaint o gyfarpar cynorthwyol ar gael yn yr orsaf bleidleisio i'ch helpu i wneud hynny.

Os oes gennych anghenion mynediad penodol, gallwch gysylltu â'r cyngor sy'n gyfrifol am eich gorsaf bleidleisio i gael gwybod pa gyfarpar cynorthwyol fydd ar gael ac i ofyn am unrhyw gyfarpar ychwanegol sydd ei angen arnoch.

Bydd y cyngor yn penderfynu a ellir darparu'r cyfarpar y gofynnir amdano ai peidio.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y cyngor sy'n gyfrifol am eich gorsaf bleidleisio drwy ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280** neu drwy nodi eich cod post yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**

## Mathau eraill o gymorth

Gall y Swyddog Llywyddu eich helpu i fwrw eich pleidlais os byddai hyn yn ddefnyddiol. Mae staff yr orsaf bleidleisio yno i helpu, a dylid annog pleidleiswyr i ofyn i aelod o staff os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu os bydd angen cymorth arnynt.

Os ydych yn teimlo na allwch bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio heb gymorth, gan gynnwys os ydych yn anabl, gallwch ddod â rhywun gyda chi i'ch helpu.

Gall unrhyw un dros 18 oed fynd gyda pherson sy'n pleidleisio yn:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau neu ddeisebau adalw Senedd y DU
- Etholiadau cynghorau lleol yn Lloegr
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.

Gall unrhyw un dros 16 oed fynd gyda pherson sy'n pleidleisio yn:

- Etholiadau Senedd yr Alban
- Etholiadau'r Senedd, ac
- Etholiadau cynghorau yng Nghymru a'r Alban.

Ni fydd angen i'r cydymaith ddangos ID ffotograffig. Os bydd cydymaith yn eich cefnogi yn y bwth pleidleisio, dylech roi gwybod i staff yr orsaf bleidleisio pan fyddwch yn cyrraedd. Caniateir i'ch cydymaith fynd gyda chi i'r bwth pleidleisio i'ch helpu i bleidleisio.

## Beth ddylech chi ei wneud os cewch chi broblemau yn yr orsaf bleidleisio?

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau yn yr orsaf bleidleisio neu os ydych am roi adborth am eich profiad, dylech gysylltu â'ch cyngor lleol.

# Ffyrdd eraill o bleidleisio

Os na fyddwch yn gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, neu os nad ydych am bleidleisio'n bersonol, mae ffyrdd eraill o bleidleisio.

## Pleidleisio drwy'r post

**Nid** oes angen ID ffotograffig i bleidleisio drwy'r post.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post mewn etholiad penodol yw **5pm, 11 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Pan fyddwch yn gwneud cais am bleidlais bost, mae angen i chi nodi eich dyddiad geni, eich rhif yswiriant gwladol a'ch llofnod. Os na allwch roi eich rhif yswiriant gwladol, bydd angen i chi esbonio pam yn eich cais. Bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi i drafod pa fathau eraill o brawf adnabod y bydd angen i chi eu darparu. Bydd angen i chi ddarparu eich dyddiad geni a'ch llofnod eto pan fyddwch yn cwblhau'r pecyn pleidleisio drwy'r post, fel y gellir cadarnhau pwy ydych.

Byddwch yn derbyn eich papur pleidleisio drwy'r post. Bydd angen i chi ddilyn y cyfarwyddiadau i gwblhau a dychwelyd eich papur pleidleisio, gan sicrhau eich bod yn gadael digon o amser iddo gyrraedd eich cyngor lleol. Os na allwch bostio eich pecyn pleidleisio drwy'r post mewn pryd, gallwch fynd ag ef i'ch gorsaf bleidleisio neu eich cyngor lleol ar y diwrnod pleidleisio. Bydd unrhyw un sy'n cyflwyno pleidlais bost yn cael ffurflen i'w chwblhau.

Bydd eich pecyn pleidleisio drwy'r post yn cynnwys gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael gwybod i ba swyddfa cyngor y gallwch chi gyflwyno eich pleidlais bost.

## Pleidleisio drwy ddirprwy

**(caniatáu i rywun rydych yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eich rhan)**

Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, sef pan fyddwch yn dewis rhywun rydych yn ymddiried ynddo i fynd i'ch gorsaf bleidleisio ar eich rhan.


Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiad penodol yw **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn dyddiad yr etholiad hwnnw.

Bydd angen i'r person yr ydych yn ei ddewis i bleidleisio ar eich rhan fynd i'ch gorsaf bleidleisio. Bydd angen iddo ddangos ei ID ffotograffig ei hun, nid eich un chi.

Os bydd argyfwng yn codi ar ôl y dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy, sy'n golygu na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol, gallwch wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys hyd at 5pm ar ddiwrnod yr etholiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy yn **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau** neu drwy ffonio ein llinell gymorth ar **0800 328 0280**

## Atodiad 1




## Cofrestru i bleidleisio yng Nghymru

I gofrestru i bleidleisio yng Nghymru, rhaid i chi fod yn 14 oed neu'n hŷn. Hefyd, rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Yn ddinesydd o'r DU neu Iwerddon
- Yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n byw yng Nghymru
- Yn 'ddinesydd tramor cymwys' – dinesydd gwlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch.

Ar ôl cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn 'ddinesydd tramor cymwys')
- Etholiadau ac is-etholiadau Senedd Cymru, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau cynghorau lleol, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn 'ddinesydd tramor cymwys').

Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i bleidleisio, ewch i **electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau/pwy-syn-gallu-pleidleisio/ym-mha-etholiadau-y-gallwch-chi-bleidleisio**

## Cofrestru i bleidleisio yn Lloegr

Er mwyn bod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn Lloegr, rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Yn ddinesydd o'r DU neu Iwerddon
- Yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n byw yn Lloegr
- Yn ddinesydd UE cymwys, neu'n ddinesydd yr UE sydd â hawliau a gedwir sy'n byw yn Lloegr.

I gofrestru i bleidleisio yn Lloegr, rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn.

Ar ôl cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (oni bai eich bod yn ddinesydd yr UE)
- Etholiadau ac is-etholiadau cynghorau lleol, pan fyddwch yn 18 oed
- Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, pan fyddwch yn 18 oed.

## Cofrestru i bleidleisio yn yr Alban


I gofrestru i bleidleisio yn yr Alban, rhaid i chi fod yn 14 oed neu'n hŷn. Rhaid i chi hefyd fod yn un o'r canlynol:

- Yn ddinesydd o'r DU neu Iwerddon
- Yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad sy'n byw yn yr Alban
- Yn 'ddinesydd tramor cymwys' – dinesydd o wlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch, gan gynnwys dinasyddion yr UE.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch bleidleisio yn yr etholiadau canlynol, oni nodir yn wahanol:

- Etholiadau cyffredinol, is-etholiadau a deisebau adalw Senedd y DU, pan fyddwch yn 18 oed (ond nid 'gwladolion tramor cymwys')
- Etholiadau ac is-etholiadau Senedd yr Alban, pan fyddwch yn 16 oed
- Etholiadau cyngor lleol, pan fyddwch yn 16 oed.

## Atodiad 2




Y mathau o ID ffotograffig a dderbynnir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yw:

### Teithio rhyngwladol

- Mae hyn yn cynnwys cerdyn pasbort Iwerddon.

### Gyrru a pharcio

- **Trwydded yrru** a gyhoeddwyd yn y DU, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu wladwriaeth AEE
- **Bathodyn Glas**.

### Teithio lleol

- **Pàs Bws Person Hŷn** a gyllidir gan Lywodraeth y DU (a gyhoeddir yn Lloegr)
- **Pàs Bws Person Anabl** a gyllidir gan Lywodraeth y DU (a gyhoeddir yn Lloegr)
- **Cerdyn Oyster 60+ Llundain** a gyllidir gan Transport for London
- **Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl 60 oed a hŷn**
- **Pàs Freedom (a gyhoeddir yn Lloegr)**
- **Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i bobl anabl**.

### Prawf oedran


- Cerdyn adnabod sydd â hologram y **Cynllun Safonau Prawf Oedran** (cerdyn PASS).

### Dogfennau eraill a gyhoeddir gan y Llywodraeth

- **Dogfennau Mewnfudo Biometrig gan gynnwys eVisas**
- **Ffurflen 90 y Weinyddiaeth Amddiffyn** (Cerdyn Adnabod Amddiffyn)
- **Cerdyn adnabod cenedlaethol** a gyhoeddir gan wladwriaeth AEE
- **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**
- **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr Dros Dro**
- **Dogfen Etholwr Dienw**.

Am restr lawn o'r mathau o ID ffotograffig a dderbynnir, ewch i **electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**

## Atodiad 3




## Arddull y llun

Rhaid i'r llun fod ohonoch chi:

- Yn wynebu ymlaen ac yn edrych yn syth at y camera
- Gyda golwg agos o'ch pen a'ch ysgwyddau, heb unrhyw orchudd pen, oni bai y caiff ei wisgo am resymau crefyddol neu feddygol. Ni cheir gorchuddio'r wyneb am unrhyw reswm
- Heb unrhyw berson arall yn y llun
- Â mynegiant wyneb plaen a'ch llygaid ar agor ac yn weladwy (heb sbectol haul a heb eu cuddio â gwallt, er enghraifft). Noder nad yw hyn yn gymwys os na allwch ddarparu llun sy'n cydymffurfio â'r naill ofyniad neu'r llall, neu'r ddau ofyniad, oherwydd anabledd.

## Ansawdd y llun

Mae'n rhaid i'r llun ohonoch fod:

- Yn wirioneddol debyg i chi, heb ddefnyddio Photoshop na hidlwyr
- Mewn lliw
- Wedi'i dynnu yn erbyn cefndir plaen, golau
- Mewn ffocws ac yn eglur
- Heb 'lygaid coch', cysgodion ar yr wyneb, nac adlewyrchiad
- Heb ei ddifrodi.

## Maint y llun

Os byddwch yn gwneud cais ar-lein, rhaid i'r llun a ddarperir gennych fod:

- O leiaf 750 picsel o uchder a 600 picsel o led
- Mewn ffeil electronig nad yw'n fwy na 20MB o faint.

Os byddwch yn gwneud cais gan ddefnyddio ffurflen bapur, rhaid i'r llun fod:

- O leiaf 45 milimetr o uchder a 35 milimetr o led
- Ddim mwy na 297 milimetr o uchder na 210 milimetr o led.

# Y Comisiwn Etholiadol

I gael rhagor o wybodaeth am:

- Cofrestru i bleidleisio
- Pa etholiadau sy'n gofyn am ID ffotograffig
- Pa ID ffotograffig a dderbynnir wrth bleidleisio
- Sut i wneud cais am ID pleidleisiwr am ddim.

**electoralcommission.org.uk/id-pleidleisiwr**

**0800 328 0280**

Dilynwch ni ar:

**@ElectoralWales**

**facebook.com/ElectoralCommissionUK**

**@ElectoralCommissionUK**